**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-VG-3307-20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Hydref 2020

Annwyl Mick,

Rwy’n ysgrifennu i’ch hysbysu fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn y Senedd mewn perthynas â:

- **Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2020**

yn unol â'r gofyniad o dan Reol Sefydlog 30A (RhS30A).

Rwy'n ysgrifennu hefyd i roi gwybod ichi nad wyf yn bwriadu cyflwyno cynnig i gynnal dadl ar yr OS yn yr achos hwn. Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwn ar y sail bod yr OS wedi’i gyfyngu i wneud cywiriadau i’r diffygion yn y gyfraith a fydd yn codi oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE. Mae darpariaethau'r OS yn ymwneud â gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon neu fel arall yn dechnegol neu'n fach eu natur, ac nid oes unrhyw wahaniaeth mewn polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn unrhyw un o'r meysydd hyn.

Mae RhS30A yn darparu y caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i gynnal dadl ar yr OS hwn. O ystyried faint o ddeddfwriaeth y mae'r Senedd yn ei ystyried, ni fyddaf yn ceisio cynnal dadl o'r fath.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.